



0171-554 MAWRTH 2022

Lefel 3 Diploma Technegol Estynedig Uwch mewn Amaethyddiaeth (Da Byw)

Lefel 3 Amaethyddiaeth – Arholiad theori (2)

Os cawsoch un, gludwch eich label cod bar ymgeisydd fan hyn.

Dydd Mercher 2 Mawrth 2022
13:30 – 15:30

Enw'r ymgeisydd (cyntaf, olaf)

Cyntaf

Olaf

Rhif ymrestru'r ymgeisydd


Dyddiad geni (DDMMBBBB)

Rhyw (G/B)

Dyddiad asesu (DDMMBBBB)

Rhif y ganolfan

Llofnod yr Ymgeisydd a datganiad*

- Os caiff unrhyw ddalennau ateb ychwanegol eu defnyddio, rhowch nifer y tudalennau ychwanegol yn y blwch yma. 
- Cyn cymryd yr arholiad, rhaid i **bob ymgeisydd** wirio bod eu label cod bar yn y blwch priodol. Gall barrau cod sydd wedi'u gosod yn anghywir achosi oedi yn y broses farcio.
- Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n styffylu dalennau ychwanegol at **gefn** y llyfryn ateb yma, gan eu labelu'n glir gyda'ch enw llawn, rhif ymrestru, rhif y ganolfan, a rhif y cymhwyster mewn LLYTHRENNAU BRAS.
- Mae angen i bob ymgeisydd ddefnyddio ysgrifbin **du/glas. Peidiwch â** defnyddio pensil neu ysgrifbin gel, oni bai eich bod yn cael cyfarwyddyd i wneud hyn.
- Os cawsoch chi ddogfennau ffynhonnell, chaiff y dogfennau hyn **ddim** eu dychwelyd at City & Guilds, a byddan nhw'n cael eu torri'n fân. Peidiwch ysgrifennu ar y dogfennau ffynhonnell.

***Rwy'n datgan na chefais wybodaeth ymlaen llaw am y cwestiynau yn yr arholiad hwn ac na fyddaf yn rhoi unrhyw wybodaeth i unrhyw berson am y cwestiynau.**

Dylai'r canlynol fod gennych ar gyfer yr arholiad hwn

- ysgrifbin gydag inc du neu las

Cyfarwyddiadau cyffredinol

- Defnyddiwch ysgrifbin du neu las.
- Mae'r marciau am y cwestiynau i'w gweld mewn cromfachau.
- Mae'r arholiad hwn yn cynnwys 14 cwestiwn. Atebwch **bob** cwestiwn.
- Atebwch y cwestiynau yn y bylchau a roddir. **Ni** chaiff atebion sy wedi'u hysgrifennu yn yr ymylon neu ar dudalennau gwag eu marcio.
- Rhowch groes trwy unrhyw waith dydych chi ddim am iddo gael ei farcio.



1 Nodwch **ddwy brif** ran y system nerfol ganolog mewn da byw. (2 farc)

2 Nodwch **un** swyddogaeth am **bob** un o'r rhannau canlynol o'r systemau atgennhedlu.
a) Ceilliau. (1 marc)

b) Epididymis. (1 marc)

c) Fas defferens/Vas Deferens. (1 marc)

ch) Dwythell wyau. (1 marc)

d) Ofariau. (1 marc)

dd) Y groth/Wterws. (1 marc)

3 Rhestrwch **bedwar** hormon sy'n rhan o'r gylchred oestrws. (4 marc)



4 Esboniwch sut mae hadlif/semen wedi'i rywio'n gallu gwella incwm ffermwr llaeth.

(4 marc)

5 Rhestrwch **bedair** ffynhonnell bosibl o brotein planhigion wedi'u tyfu gartref yn neiet anifail cilgno.

(4 marc)

6 Esboniwch **ddau** reswm pam mae hi'n bwysig dilyn y gyfradd ddos sy'n cael ei hargymell yn gywir wrth roi gwrthfoteg ac anthelmintigau.

(4 marc)



7 Rhestrwch **bedwar** arwydd o Hypocalcaemia mewn buwch laeth. (4 marc)

8 Rhestrwch **bedair** strôc cylchred pedair strôc diesel. (4 marc)

9 Diffiniwch y term 'Canol Llwyth' mewn perthynas â fforch godi delesgopig tir garw (RTFL). (2 marc)

10 Disgrifiwch **ddwy** ffordd o yrru cerbyd pob tirwedd (ATV) ar dir ar lethr. (4 marc)

11 Nodwch **ddau** ddull cyfreithiol o waredu carcasau anifeiliaid fferm. (2 farc)

12 Esboniwch ystyr 'gwastraff organig fferm'. (2 farc)

13 Am **bob un** o'r canlynol, disgrifiwch y dull storio a gwaredu cywir, yn unol â deddfwriaeth berthnasol.
a) Nodwyddau. (2 farc)

b) Poteli moddion. (2 farc)

c) Cynwysyddion plaleiddiad. (2 farc)
